Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 03/06/2021 i'w hateb ar 08/06/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

PRIF WEINIDOG

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

1 OQ56563 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglyn â'r camau sydd wedi eu cymryd i atal llifogydd yng Nghanol De Cymru yn dilyn llifogydd 2020?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

2 OQ56530 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r defnydd o arferion diswyddo ac ailgyflogi gan gyflogwyr yng Nghymru?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ56575 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr Adran Gwaith a Phensiynau yn tandalu pensiynau i fenywod?

Jane Dodds *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ56568 **(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched, yn enwedig mewn cymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig?

Luke Fletcher *Gorllewin De Cymru*

5 OQ56557 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd yn ne-orllewin Cymru?

Darren Millar *Gorllewin Clwyd*

6 OQ56535 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol economi gogledd Cymru?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

7 OQ56554 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun peilot awyr agored ar gyfer cynulliadau torfol yng Nghymru?

Joel James *Canol De Cymru*

8 OQ56567 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rôl y mae'r Gymraeg wedi'i chwarae yn natblygiad Caerdydd fel prifddinas Cymru?

Jayne Bryant *Gorllewin Casnewydd*

9 OQ56574 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gofalwyr ifanc yng Nghymru?

Delyth Jewell *Dwyrain De Cymru*

10 OQ56573 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflwyno brechlyn COVID-19 yn Nwyrain De Cymru?

Buffy Williams *Rhondda*

11 OQ56540 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi adferiad y system gofal cymdeithasol o COVID-19?

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

12 OQ56549 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella seilwaith trafnidiaeth yn ne-ddwyrain Cymru?